YSTADEGAU

# Teithio lleso (cerdded a beicio): Ebrill 2022 i Fawrth 2023

Amrywiaeth o wybodaeth ei gasglu drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru am deithio llesol gan bobl yn ystod Ebrill 2022 i Fawrth 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 30 Awst 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 30 Awst 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cyflwyniad

Prif bwyntiau

Beicio

Cerdded

Teithio llesol yn ôl dosbarthiad trefol a gwledig

Teithio llesol yn ôl iechyd cyffredinol

Termau a diffiniadau

Gwybodaeth am ansawdd

Diweddariad nesaf

Rydym am gael eich adborth

Manylion cyswllt



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Caiff teithio llesol ei fesur fel cerdded am o leiaf 10 munud neu feicio fel dull o deithio i gyrraedd man penodol. Nid yw'n cynnwys cerdded na beicio er mwynhad, am resymau iechyd neu fel ymarfer. Caiff gwybodaeth am deithio llesol gan bobl yng Nghymru ei chasglu drwy **Arolwg Cenedlaethol Cymru**. Mae canlyniadau ychwanegol ar gael yn **nangosydd canlyniadau** rhyngweithiol Arolwg Cenedlaethol Cymru.

# Prif bwyntiau

Gofynnwyd y cwestiynau teithio llesol (am feicio neu gerdded fel dull teithio) yn yr Arolwg Cenedlaethol mwyaf diweddar i oedolion 16 a throsodd.

## Ebrill 2022 i Fawrth 2023

- roedd 6% o bobl yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos at ddibenion teithio llesol
- roedd 51% o bobl yn cerdded o leiaf unwaith yr wythnos at ddibenion teithio llesol

## Amlder teithio llesol


Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi cynnwys cwestiynau am deithio llesol ers 2013-14. Gofynnir i bobl pa mor aml y maent wedi defnyddio beic neu wedi cerdded fel dull o deithio yn ystod y tri mis blaenorol.

Yn 2022-23, roedd 10% o oedolion yn beicio o leiaf unwaith y mis at ddibenion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

teithio llesol, sy'n debyg yn eang i flynyddoedd blaenorol.

### Ffigur 1: Cyfran y bobl a deithiodd drwy feicio o leiaf unwaith y mis, 2018-19 i 2022-23 [Nodyn 1] [Nodyn 2] [Nodyn 3]




Disgrifiad o Ffigur 1: Mae Ffigur 1 yn dangos cyfran y bobl a deithiodd drwy feicio o leiaf unwaith y mis ar gyfer pob un o'r blynyddoedd ariannol rhwng 2018-19 a 2022-23.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

[Nodyn 1] Nid oes data ar gael ar gyfer 2020-2021 oherwydd newidiadau i Arolwg Cenedlaethol Cymru yn sgil pandemig y coronafeirws (COVID-19).

[Nodyn 2] Newidiodd Arolwg Cenedlaethol Cymru o ddull casglu data wyneb yn wyneb i gasglu data dros y ffôn ac ar-lein ar gyfer 2021-22 a 2022-23. Dylid cymryd gofal wrth wneud cymariaethau uniongyrchol â chanlyniadau cynharach.

[Nodyn 3] Mae'r cwestiynau yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 ar Deithio Llesol yn wahanol i gwestiynau blaenorol ac felly nid oes modd cymharu'r data'n


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

uniongyrchol â bwletinau ystadegol blaenorol.

Roedd canran y bobl a oedd yn cerdded yn aml am o leiaf 10 munud yn llawer uwch na'r ganran a oedd yn beicio'n aml fel dull o deithio. Yn 2022-23, roedd 51% o bobl yn teithio'n llesol o leiaf unwaith neu ddwywaith yr wythnos drwy gerdded, sef cyfran debyg o gymharu â 2021-22.

## Ffigur 2: Amlder teithio llesol drwy gerdded, 2018-19 i 2022-23 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 2: Mae Ffigur 2 yn dangos cyfran y bobl a deithiodd drwy gerdded yn ôl amlder teithio llesol a blwyddyn rhwng 2018-19 a 2022-23.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru


[Nodyn 1] Nid oes data ar gael ar gyfer 2020-2021 oherwydd newidiadau i Arolwg Cenedlaethol Cymru yn sgil pandemig y coronafeirws (COVID-19).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Beicio

Pan ofynnwyd pa mor aml roeddent wedi defnyddio beic fel dull teithio yn ystod y tri mis blaenorol, roedd dynion yn fwy tebygol o feicio, ac o wneud hynny'n amlach na menywod.

## Ffigur 3: Cyfran y bobl a deithiodd drwy feicio o leiaf unwaith y mis yn ôl rhyw, 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 3: Mae Ffigur 3 yn dangos cyfran y bobl a deithiodd drwy feicio o leiaf unwaith y mis yn ôl rhyw yn 2022-23.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru


Roedd pobl heb salwch cyfyngus hirdymor, anabledd neu eiddilwch yn fwy tebygol o fod wedi beicio o leiaf unwaith y mis na phobl â salwch cyfyngus. Gweler yr adran ddiffiniadau am esboniad ar ddefnydd terminoleg.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 4: Cyfran y bobl a deithiodd drwy feicio o leiaf unwaith y mis yn ôl salwch cyfyngus hirdymor, 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 4: Mae Ffigur 4 yn dangos cyfran y bobl a deithiodd drwy feicio o leiaf unwaith y mis yn ôl salwch cyfyngus hirdymor yn 2022-23.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

# Cerdded


Pan ofynnwyd pa mor aml roeddent wedi cerdded am fwy na 10 munud fel dull o deithio yn ystod y tri mis blaenorol, dywedodd 17% eu bod yn cerdded am fwy na 10 munud bob dydd, dywedodd 18% eu bod yn cerdded sawl gwaith yr wythnos a dywedodd 16% unwaith neu ddwywaith yr wythnos. Roedd 8% arall yn cerdded unwaith neu ddwywaith y mis a dywedodd 41% eu bod yn cerdded yn llai aml neu nad oeddent byth yn cerdded.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 5: Amlder teithio llesol drwy gerdded yn ôl rhyw, 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 5: Mae Ffigur 5 yn dangos cyfran y bobl a deithiodd drwy gerdded yn ôl amlder teithio llesol a rhyw yn 2022-23.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru


Roedd pobl â salwch cyfyngus hirdymor, anabledd neu eiddilwch yn llai tebygol o gerdded bob dydd (13%) am fwy na 10 munud na phobl heb salwch cyfyngus (19%).


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Ffigur 6: Amlder teithio llesol drwy gerdded, yn ôl salwch cyfyngus hirdymor, 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 6: Mae Ffigur 6 yn dangos cyfran y bobl a deithiodd drwy gerdded yn ôl amlder teithio llesol a salwch cyfyngus hirdymor yn 2022-23.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

## Teithio llesol yn ôl dosbarthiad trefol a gwledig


Prin oedd y gwahaniaeth o ran amlder teithio llesol drwy feicio rhwng y rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol yn 2022-23.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 7: Cyfran y bobl a deithiodd drwy feicio o leiaf unwaith y mis yn ôl dosbarthiad trefol a gwledig, 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 7: Mae Ffigur 7 yn dangos cyfran y bobl a deithiodd drwy feicio o leiaf unwaith y mis yn ôl y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol yn 2022-23.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru


Roedd 62% o bobl mewn ardaloedd trefol yn cerdded am fwy na 10 munud fel dull o deithio o leiaf unwaith y mis, o gymharu â 52% o bobl mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd 17% o bobl mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig eu bod yn cerdded bob dydd fel dull o deithio yn 2022-23.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 8: Amlder teithio llesol drwy gerdded yn ôl dosbarthiad trefol a gwledig, 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 8: Mae Ffigur 8 yn dangos cyfran y bobl a deithiodd drwy gerdded yn ôl amlder teithiol llesol a dosbarthiad trefol a gwledig yn 2022-23.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

# Teithio llesol yn ôl iechyd cyffredinol


Gofynnwyd i ymatebwyr yr Arolwg Cenedlaethol roi gradd i'w hiechyd cyffredinol yn dechrau o 'gwael iawn' i 'da iawn'. Fel y gellid disgwyl efallai, roedd cydberthynas glir rhwng cerdded a beicio at ddibenion teithio llesol ac iechyd cyffredinol yr ymatebwyr. Roedd pobl a ddywedodd fod eu hiechyd yn 'dda iawn' neu'n 'dda' yn fwy tebygol o gerdded yn rheolaidd. Fodd bynnag, ni ellir

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

defnyddio'r ystadegau hyn i ddod i gasgliadau ynghylch natur y gydberthynas – gall rhai pobl fod yn iach oherwydd eu bod yn cerdded a gall pobl eraill ddewis teithio'n llesol am eu bod yn iach yn barod.

Roedd 19% o bobl ag iechyd da iawn a 18% o bobl ag iechyd da yn cerdded fel dull o deithio bob dydd o gymharu â 15% a ddywedodd fod eu hiechyd yn weddol. Dim ond 36% o bobl ag iechyd gwael neu wael iawn oedd yn cerdded fel dull o deithio o leiaf unwaith y mis yn 2022-23.

## Ffigur 9: Amlder teithio llesol drwy gerdded yn ôl iechyd cyffredinol, 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 9: Mae Ffigur 9 yn dangos cyfran y bobl a deithiodd drwy gerdded yn ôl amlder teithiol llesol ac iechyd cyffredinol yn 2022-23.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Termau a diffiniadau

## Trefol a gwledig

Mae “trefol” yn cynnwys aneddiadau gyda phoblogaeth o 10,000 neu fwy a threfi bach a'u cyrion, lle mae'r ardal gyfagos ehangach yn fwy prin ei phoblogaeth. Mae “gwledig” yn cynnwys pob ardal arall.

## Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, lle cydnabyddir bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gweithredu i analluogi pobl sydd â nam neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.

Mae'r Arolwg Cenedlaethol Cymru, sef ffynhonnell y data ar gyfer y datganiad hwn, yn Casglu data gan ddefnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd a ddefnyddir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (“nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu unigolyn i wneud hynny cynnal gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd”).

# Gwybodaeth am ansawdd

Cynhelir yr Arolwg Cenedlaethol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau a nodir yn y bwletin hwn yn seiliedig ar gyfweliadau a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Defnyddiwyd 32,550 o gyfeiriadau gyda'r cyfwelwyr yn cynnal cyfweliadau dros y ffôn gydag oedolyn (16+ oed) a ddewiswyd ar hap yn yr aelwyd. Cynhaliwyd cyfanswm o 11,140 o gyfweliadau dros y ffôn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

I gael rhagor fanylion gweler **adroddiad Technegol Arolwg Cenedlaethol Cymru**.

## Dehongli'r canlyniadau

Mae'r ffigurau a ddyfynnir yn y bwletin hwn yn seiliedig ar yr ymatebwyr a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol yn unig. Dim ond is-sampl o ymatebwyr a gafodd eu holi am rai pynciau yn yr arolwg ac ni ofynnwyd cwestiynau eraill os nad oeddent yn berthnasol. Gall atebion coll hefyd ddigwydd am nifer o resymau, gan gynnwys amharodrwydd neu anallu i ateb cwestiwn penodol.

Lle nodwyd cydberthynas rhwng dau ffactor, nid yw hyn yn golygu mai cydberthynas achosol ydyw. Mae angen dadansoddiad manylach er mwyn nodi a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall, neu a yw ffactorau eraill yn bwysicach mewn gwirionedd.

Mae'r canlyniadau'n cael eu pwysoli er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu dosbarthiad oedran a rhyw poblogaeth Cymru.

## Adroddiad ansawdd

Mae **adroddiad ansawdd** cryno ar gael, sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ansawdd yr arolwg yn ogystal â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddir i lunio'r canlyniadau.

## Cyd-destun

Mae'r **Ddeddf Teithio Llesol (Deddfwriaeth y DU)** yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i fapio a chynllunio ar gyfer llwybrau teithio llesol addas, adeiladu a gwella isadeiledd ar gyfer cerdded a beicio, a hyrwyddo

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cerdded a beicio bob blwyddyn.

## Perthnasedd

Defnyddir yr ystadegau hyn i roi gwybodaeth i lywodraeth, y cyfryngau a chymdeithas ac fe'u defnyddir o fewn Llywodraeth Cymru i lunio a monitro polisïau. Ar hyn o bryd, nid oes ffynonellau data cyfredol a swyddogol eraill ar gael ynghylch teithio llesol yng Nghymru. Ymhlith pethau eraill, defnyddir y ffigurau hyn yn benodol i fonitro effaith Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

## Cywirdeb

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar **Arolwg Cenedlaethol Cymru**. Ceir rhagor o wybodaeth am gywirdeb yr arolwg hwn yn yr **adroddiad ansawdd**.

## Amseroldeb a phrydlondeb

Casglwyd y ffigurau ar gyfer 2022-23 a chafodd datganiad cyntaf **Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23** ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2023.

## Hygyrchedd ac eglurder

Caiff y bwletin ystadegol hwn ei rag-gyhoeddi a'i osod ar y **wefan Ystadegau ac Ymchwil**.

## Cymharu a chydlynu

Mae'r cwestiynau yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 ar Deithio Llesol yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

wahanol i gwestiynau blaenorol ac felly nid oes modd cymharu'r data'n uniongyrchol â bwletinau ystadegol blaenorol. Mae'r tabl isod yn dangos y cwestiynau a gafodd eu cynnwys yn 2022-23 ar deithio llesol. Yn y bwletin hwn dadansoddwyd cwestiynau'r arolwg dros sawl blwyddyn os oeddent wedi aros yr un peth, fel y dangosir yn y tabl isod.  Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau am deithio llesol gan blant yn 2022-23. Yn 2020-21 er gwaethaf cwestiynau yn cael eu gofyn, roedd y rhain drwy gyfweliad dros y ffôn ac nid oedd gwybodaeth ar gael yn gyhoeddus.

## Categoriau y cwestiynau a ofynnwyd ar deithio llesol (oedolion) yn arolwg 2022-23

| Teithio llesol - oedolion | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pa mor aml yn defnyddio beic i fynd rhywle** | D | D | D | D | D |
| **Pa mor aml yn cerdded am 10 munud i gyrraedd rhywle** | D | D | D | D | D |
| **Yn cerdded (10 munud+) neu'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos fel dull o deithio** | D | D | D | D | D |

D: wedi ei ofyn
N: heb ei ofyn

## Cyhoeddiadau cysylltiedig

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Mae'r Adran Drafnidiaeth yn llunio adroddiad ar Ystadegau cerdded a beicio ar gyfer Lloegr**.

**Mae Transport Scotland yn llunio adroddiad ar  Gludiant a Theithio yn yr Alban**.

**Mae'r Adran Seilwaith yn llunio cyfres o dablau ar Dueddiadau Teithio Llesol a Thrafnidiaeth Gyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon**.

## Symbolau

Talgrynnwyd y ffigurau i'r cyfanrifau agosaf. Efallai y bydd anghysondeb i'w weld rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm a ddangosir.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae **Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig** wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac yn dynodi cydymffurfiaeth â'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran ymddiriedaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai pob ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n bodloni'r safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a thrafodaethau cyhoeddus. Cadarnhawyd dynodiad yr ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol ym mis Chwefror 2011 **yn dilyn asesiad llawn yn erbyn y Cod Ymarfer**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- Ychwanegu at a mireinio gwybodaeth am ddimensiynau ansawdd a disgrifio cysylltiadau â pholisi.
- Gwella ein dealltwriaeth o'r gwahanol ffynonellau data a'r fethodoleg y tu ôl iddynt, gan gynnwys eu cryfderau a'u cyfyngiadau.
- Ychwanegu ffynonellau data perthnasol newydd i roi darlun ehangach o'r pwnc.
- Gwell delweddau drwy symleiddio a safoni siartiau a thablau.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn pryderu a yw'r ystadegau hyn yn dal i fodloni'r safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon gyda'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan na chaiff y safonau uchaf eu cynnal, a'u hadfer pan fydd safonau'n cael eu hadfer.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith ar gyfer Cymru. Mae'r rhain ar gyfer Cymru fwy cyfartal, ffyniannus, gwydn, iachach a chyfrifol yn fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog a iaith Gymraeg sy’n ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso at y diben o fesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau Llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10 (8) o’r Ddeddf, pan fydd Gweinidogion Cymru yn adolygu’r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol (a) cyhoeddi’r dangosyddion fel y’u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Gosodwyd y dangosyddion cenedlaethol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hyn gerbron y Senedd yn 2021. Mae’r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli’r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratifau ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Rhagor o wybodaeth am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau a gynhwysir yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Diweddariad nesaf

Awst 2024 (dros dro)

## Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir eu darparu drwy e-bost i **ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru**

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: James Khonje
E-bost: **ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cyfryngau: 0300 025 8099

SB 30/2023

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.